

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mrs Beti Evans (Tanyfron) a gweddill y teulu ym marwolaeth ei brawd, Gwilym Howatson. Cyflwynwn hwy i ofal Duw, gan hyderu y cânt adnabod ei heddwch a'i dangnefedd.
- Mae Huw Davies (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd y yn dilyn llawdriniaeth, ac yno hefyd y mae Doreen Evans (Tanyfron), Elwyn Roberts (Llansannan), a Menna Owen (Cefn Meiriadog). Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac y byddant yn cael adferiad iechyd buan iawn. Mae Harold Lloyd (Tanyfron) yn parhau yn Ysbyty Bae Colwyn a chofiwn yn ein gweddïau amdano yntau ac eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cofiwn yn arbennig am David Lloyd Williams (Llanefydd) gan hyderu y caiff adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosto. Cofiwn am ei deulu hefyd, gan ddiolch am eu gofal arbennig drosto. Bu Morfudd Williams (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau hefyd ond mae hi bellach wedi cael dod adref, fel ag y mae Henry Ames (Groes). Diolchwn i Dduw am y gofal a gafodd y ddau tra yn yr ysbyty, a'r un modd y gofal y maent yn ei gael adref.

*"A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn eich plith, yn llawn gras a gwirionedd." Ioan 1:14*

## I ddod

- **Darlithoedd DAWN Cymru** dydd Sadwrn, Ionawr 7fed.
- **Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan** nos Fawrth, Ionawr 10fed am 7.30.
- **Cyfarfod Pregethu Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Soar, Llanfair** nos Fercher, Ionawr 11eg am 7.00 gyda Mr Tom I. Williams, Dinbych yn pregethu.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn ail-gychwyn yn Llanefydd nos Iau, Ionawr 12fed am 7.30.
- **Cyfarfod Eglwys i aelodau Tanyfron** i ddilyn yr oedfa pnawn dydd Sul, Ionawr 22ain.
- **Aduniad Souled Out** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 27ain -29ain.
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 3ydd-5ed. Mwy o fanylion yn y flwyddyn newydd.
- **Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala** - Chwefror 16eg-19eg.

*Nadolig  
Llawen  
i chi i gyd!*

## Llais Bro Aled

**Dydd Sul, 18<sup>fed</sup> Rhagfyr 2011**

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)  
[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org)



Bore da i chi! Gan na fydd Llais Bro Aled yr wythnos nesa ga'i gymryd y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch ac i'ch hanwyliaid ymhobman! Ar ran Mair a Rhodri hefyd, diolch o galon i chi am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn ac am y fraint o gael rhannu cymdeithas gyda chi yn yr Arglwydd. Fe fydd oedfaon arbennig a phartion heddiw ar hyd y Fro a gweddiwn y bydd yr hanes am eni Iesu yn dod yn fyw iawn inni ac y byddwn yn cael ein rhyfeddu gan fawredd y digwyddiad ym Methlehem! *"Ganwyd i chi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd – Crist yr Arglwydd yw!"*

"Rhyfeddu" yw'r gair mwyaf addas i ni o ddigon! Does dim esbonio ar wyrth yr enedigaeth yma! Plygu'n isel sydd yn rhaid i ni – plygu wrth ei grud mewn rhyfeddod a diolchgarwch. Beth am ddarllen emyn 446? *"Rhyfedd, rhyfedd gan angylion, Rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd ...."* A throi at y Beibl hefyd – mae'r hanes i'w gael ar ddechrau Efengyl Luc (hanes y bugeiliaid a'r angylion) ac Efengyl Mathew (hanes y doethion a'u hanrhegion). Er mor gyfarwydd yw'r hanes, mae darllen yr hanes o'r Beibl trosom ein hunain yn wefreiddiol! Hanes Duw yn dod i'r byd i'n gwaredu trwy ddod i farw yn ein lle. Ond cyn gallu marw roedd yn rhaid iddo gael ei eni! Wrth ddarllen yr hanes ac ystyried yn dawel yn y galon: 'Ydio'n wir mai er fy mwyn i y mae'r holl bethau hyn wedi digwydd?' mae'n dechrau 'teimlo fel 'Dolig' go iawn. Clywed Duw yn dweud 'Ia! – er dy fwyn di!' yw'r anrheg gorau a gawn! A'r rhyfeddod mwyaf a brofwn!

Mae'r flwyddyn hefyd yn tynnu ei thraed ati ac fe fyddwn yn edrych yn ôl. Mae hi wedi bod yn gyfnod o dreialon mawr i sawl teulu yn y Fro ac fe fydd hiraeth o'r newydd ar sawl aelwyd. Gweddiwn dros ein gilydd a gweddiwn y bydd hanes geni'r Ceidwad – yr Un, yr Eneiniog, a ddaeth i gysuro'r rhai ysg o galon – yn ein llenwi wrth i ni gofio a rhoi diolch. Mae presenoldeb Iesu yn falm ar bob briw a'i feddyginiaeth yn dragwyddol ei lesâd.

Diolchwn i'r Arglwydd hefyd am ei rodd o blant ac am y llawenydd sydd ymhob genedigaeth. Y 'Dolig cyntaf! Amser hyfryd yw hwn lle mae'r plant yn chwarae mwy hefo'r papur lapio a'r bocsus nag hefo'r teganau eu hunain a phawb yn dotio. Wrth weld y cynnwrf ar wyneb y plant ar fore dydd Nadolig, a'u gweld yn chwarae'n llawen, rhyfeddwn eto fod Duw wedi dod i'n byd fel plentyn bach – i chwarae ac i chwerthin fel ein plant ninnau! *'Bachgen a anwyd i ni!'* Trysorodd Mair bob peth oedd yn digwydd iddynt fel teulu yn ei chalon – geiriau'r bugeiliaid a dyfodiad y doethion. Iesu ei hunan yw y trysor pennaf a gafodd y byd o law Duw. Rhyfeddwn a diolchwn – *'Gwerthfawr drysor, yn y preseb, Iesu gaed!'*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma **Oedfa Garolau i'r Fro yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 6.00 gydag Andras Iago yn arwain yr addoliad.

Sul nesaf (25ain) **Oedfa bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel Henllan am 9.30.

Mercher (28ain) **Swper Nadolig Adnabod** yn Ffestri Llansannan am 7.30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).

Iau (29ain) **Taith gerdded** (ar y gwastad!). Pawb i gyfarfod ym maes parcio'r capel yn Llansannan am 10.30. Dewch â chinio a phaned hefo chi.

Ionawr 1af Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30. Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Neuadd Goffa.

Ionawr 1af Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00.

### Llansannan

Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Ffestri ac ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00, gyda pharti i ddilyn yn y Ffestri.

Llun "Awn i Fethlem" – Gwasanaeth Carolau'r Gymdeithas yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.

Sul nesaf Gwasanaeth Plygain y Gymdeithas yng Nghapel Bethania bore'r Nadolig am 7.00.

Ionawr 1af Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00, ond ni fydd Ysgol Sul heddiw.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig (Nantglyn a Thanyfron) yn Nantglyn am 2.00.

Ionawr 1af Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn Saron am 11.00 a bydd Parti'r plant yn dilyn.

Ionawr 1af Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Ffestri. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig am 2.00.

Ionawr 1af Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol yng Nghapel Henllan, bore Sul, Ionawr 1af am 11.00 gyda phaned i ddilyn. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanefydd am 11.00, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Llanefydd am 6.30. Cesglir yr amlenni a ddsbarthwyd tuag at y Feibl Gymdeithas yn ystod y gwasanaeth. Gwerthfawrogrir petaech yn llenwi'r rhan Rhodd Cymorth ar yr amlen, os yw hynny'n bosibl. Bydd Gwasanaeth Nadolig yng Nghewn Berain am 10.00 a Pharti i ddilyn.

Sadwrn Bydd Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Llanefydd am 8.00. Croeso i bawb.

Ionawr 1af Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00.

### Dalier Sylw – RHIFYN NESAF – Ionawr 1af, 2012

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher, Rhagfyr 28ain fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.